Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Adroddiad Blynyddol

2025/26

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL YN SAESNEG HEFYD.
THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH.



Cynnwys

Rhagair	3
Blwyddyn o gyflawni, trosglwyddo a momentwm o'r newydd	4
Gyrru uchelgais, twf a chyfleoedd yng Ngogledd Cymru	5
Cerrig Milltir	6
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd	7
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	10
Cynllun Datblygu Strategol	13
Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam	17
Cynllun Twf Gogledd Cymru	22
Sgiliau a Chyflogaeth	34
Ynni Strategol	37
Cronfa Ffyniant Gyffredin	39
Elusen	43
Y flwyddyn nesaf	45

Ein Uchelgais

Bod yn hyderus ac yn gydlynol, yn canolbwyntio ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn modd cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd, datblygu gyrfaoedd gwerth chweil, i fusnesau dyfu ac i gymunedau ffynnu.

Gwneud hyn gan hyrwyddo'r Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, ac yn unol â nodau llesiant Cymru.

Rhagair

Fel Cadeirydd, rwyf yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2025/26 ar ran Uchelgais Gogledd Cymru. Mae hon wedi bod yn flwyddyn drosiannol bwysig, lle gwelwyd y bartneriaeth yn cryfhau a chynnydd parhaus, wrth i ni weithio ar y cyd i gefnogi Gogledd Cymru sy'n fwy gwydn, cysylltiedig, arloesol a chynaliadwy.

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd uno'r Cynllun Twf, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Swyddfa Rheoli Portffolio, o dan strwythur corfforedig newydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd sy'n cael ei adnabod dan yr enw brand Uchelgais Gogledd Cymru - dyma greu llwyfan cryfach ar gyfer cydweithio rhanbarthol a chyflawni hirdymor.

Ar y cyd â'r trosglwyddiad hwn, rwyf wedi parhau i ymgorffori'r polisïau, y prosesau a'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen i gefnogi ein cyfrifoldebau ehangach ar gyfer lles economaidd, trafnidiaeth rhanbarthol a chynllunio strategol. Mae'r sylfeini hyn yn hanfodol i sicrhau bod ein huchelgeisiau rhanbarthol yn cael eu cefnogi gan benderfyniadau cadarn, atebolrwydd clir a chyflawni effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn ystod 2025/26, yn cynnwys cyflawniadau allweddol drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, a'r rhaglen ehangach o weithgarwch rhanbarthol. Mae hefyd yn cydnabod y gwaith sylweddol sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni i ddatblygu achosion busnes, cryfhau sicrwydd, ymgysylltu â llywodraethau, cefnogi arianwyr prosiect ac adeiladu'r capasiti sydd ei angen i gyflawni ar gyfer y tymor hir.

Rwyf yn ddiolchgar i'n partneriaid, ein rhanddeiliaid a'n timau cyflawni am eu hymrwymiad, eu harbenigedd a'u cydweithio adeiladol drwy'r flwyddyn. Mae eu cyfraniad wedi bod yn allweddol er mwyn cadw momentwm, ymateb i newid a sicrhau bod ein gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion a chyfleoedd y rhanbarth.

Wrth i ni edrych ymlaen, mae gennym hyder yng nghryfder ein partneriaethau a'r cyd-ymrwymiad sy'n tanategu Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y flwyddyn i ddod yn dod â heriau a chyfleoedd pellach, ond mae'r cynnydd sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad hwn yn dangos ein bod mewn lle da i barhau i gydweithio er budd ein pobl, ein cymunedau a'n busnesau.



Cyng Mark Pritchard
Cadeirydd
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Blwyddyn o gyflawni, trosglwyddo a momentwm o'r newydd

I Uchelgais Gogledd Cymru, mae 2025/26 wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid a momentwm, gan gyfuno newidiadau mawr o ran llywodraethu, strwythur a phroses gyda ffocws arwyddocaol ar gyflawni a buddsoddiad parhaus. Ar ôl trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r tîm i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025, dan frand Uchelgais Gogledd Cymru. Mae hyn wedi galluogi'r sefydliad symud i gam mwy hyderus o gyflawni, wedi'i gefnogi gan lywodraethu cryfach, arweinyddiaeth o'r newydd a ffocws ar yr effaith ranbarthol

Eleni, gwelwyd cynnydd arwyddocaol ar draws y Cynllun Twf, gyda saith prosiect yn cael eu cyflawni a deg pellach wedi'u cymeradwyo ac yn barod i ddechrau cyflawni y flwyddyn nesaf. Mae sawl achos busnes wedi'u cymeradwyo, mae'r gwariant wedi cyflymu, ac mae rhestr wrth gefn wedi'i greu i sicrhau bod modd dod â phrosiectau cryf, cyflawnadwy yn eu blaen. Mae'r portffolio hefyd wedi'i ail-osod, wedi i rai prosiectau dynnu'n ôl ac arian gael ei ryddhau i'w ail-fuddsoddi mewn prosiectau rhestr wrth gefn, sydd â'r posibilrwydd i gyflawni a dod â buddion clir i'r rhanbarth.

Roedd cymeradwyaeth ffurfiol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam gan lywodraethau'r DU a Chymru yn garreg filltir arall, gan farcio dechrau rhaglen deng mlynedd i yrru buddsoddiad, creu cyfleoedd i gyflogwyr a chymunedau lleol, a chefnogi twf economaidd hirdymor.

Ar y cyd â hyn, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi parhau i gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol ehangach, gan gynnwys sgiliau a chyflogadwyedd, trafnidiaeth strategol, cynllunio strategol a chyfleoedd buddsoddi. Mae'r ardaloedd hyn yn gynyddol ryng-gysylltiedig, a'n rôl ni yw helpu i alinio gweithgarwch, cryfhau'r cyflawni a gwneud y mwyaf o'r buddion i drigolion, busnesau a chymunedau.

Yn sefydliadol, mae hon hefyd wedi bod yn flwyddyn o dwf ac arweinyddiaeth o'r newydd. Ar y cyd â'n penodiadau fel Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Portffolio, mae penodiadau allweddol eraill wedi cryfhau'r strwythur cyflawni, yn cynnwys Dylan Williams (Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn) fel Uwch Berchennog Cyfrifol y Cynllun Twf a phenodiad Dave Penrith a Nick Bennett fel Ymgynghorwyr Anweithredol.

Mae gwaith wedi parhau i adeiladu systemau mewnol a galluedd cryfach ar ôl trosglwyddo, gyda'r gwaith yn bwrw ymlaen ar lywodraethu, cynllunio corfforaethol a gweithgarwch trosglwyddo, gan ddarparu'r sylfeini sydd eu hangen i gyflawni portffolio rhanbarthol cynyddol gymhleth gyda hyder, cyflymder a thryloywder.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn teimlo'n freintiedig ac yn gyffrous i weithio gyda gwleidyddion, cydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ymrwymedig ledled y rhanbarth. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni, cynnal momentwm ar gyflawni a chanolbwyntio ar greu economi fywiog, ffyniannus a chynaliadwy i ogledd Cymru.



Alwen Williams
Prif Weithredwr



Hedd Vaughan-Evans
Cyfarwyddwr Portffolio

Gyrru Uchelgais, Twf a Chyfleoedd yng Ngogledd Cymru

Fel Ymgynghorwyr Anweithredol sydd newydd gael eu penodi i Uchelgais Gogledd Cymru, rydym wrth ein boddau yn cefnogi'r cam nesaf yn natblygiad y rhanbarth. Mae cyfleoedd sylweddol i ddod i ogledd Cymru, a chredwn fod gan y sector breifat ran hanfodol i'w chwarae i helpu i siapio, herio a chryfhau'r gwaith sy'n cael ei fwrw yn ei flaen gan Uchelgais Gogledd Cymru.

Un o'n blaenoriaethau cyntaf fydd sefydlu Bwrdd Ymgynghori Busnes newydd, gan ddod ag arweinwyr profiadol o'r sector preifat a chyflogwyr o'r rhanbarth at ei gilydd. Bydd y Bwrdd yn darparu cyngor annibynnol, mewnwelediad strategol a her adeiladol, gan sicrhau bod llais busnes wedi'i ymgorffori yng nghyflawniad rhaglenni rhanbarthol mawr, yn cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Rydym yn gweld y Bwrdd fel cyswllt hanfodol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a'r gymuned fusnes ehangach. Drwy dynnu ar arbenigedd, rhwydweithiau a phrofiad ymarferol arweinyddion busnes, bydd yn helpu i adnabod cyfleoedd, ymdrin â rhwystrau a chefnogi buddsoddiad sy'n cyflawni buddion hirdymor i fusnesau, cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd y Bwrdd Ymgynghori Busnes wrth galon y momentwm hwn - gan helpu i herio tybiaethau, cryfhau penderfyniadau a gweithredu fel eiriolwr pwerus i Uchelgais Gogledd Cymru a'r rhanbarth. Bydd ei gyfraniad yn bwysig wrth helpu i wireddu ein cyd-weledigaeth o economi fywiog, cynaliadwy a gwydn lle gall busnesau dyfu, cymunedau ffynnu a Gogledd Cymru gyflawni ei botensial economaidd.

Rydym yn edrych ymlaen i weithio gyda phartneriaid ar draws pob sector i adeiladu Bwrdd fydd yn medru gweithredu fel pencampwyr i ogledd Cymru, cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol, a helpu i sicrhau bod y rhanbarth mewn lle da i wireddu ei botensial economaidd llawn.



Dave Penrith
Ymgynghorydd Anweithredol



Nick Bennett
Ymgynghorydd Anweithredol

Cerrig milltir

Ebrill 2025 i Mawrth 2026



Yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cymeradwyo rhestr wrth gefn o 17 o brosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru.



Lansiwyd y Gronfa Ynni Lleol .

Mai

Ebrill



Trosglwyddo'r Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025

Mehefin



Penodi Alwen Williams yn Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Gorffennaf



Penodi Dave Penrith a Nick Bennett fel Ymgynghorwyr Anweithredol i Uchelgais Gogledd Cymru.



Ymgynghori ar Gytundeb Cyflawni Drafft ar gyfer ein Cynllun Datblygu Strategol.

Hydref

Awst

Tachwedd



Agoriad swyddogol yr adeilad CanfodAu a ariannwyd gan y Cynllun Twf, ym Mhrifysgol Wrecsam.

Medi



Ymgysylltu ar ein gwaith cysylltedd digidol yn Connected Britain a'n rhaglen Ynni Carbon Isel yn Rhwydwaith Clwstwr Ynni Adnewyddadwy a Glân Cymru.



Datgan cymeradwyaeth i Brosiect Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn - gan ddatgloi'r cam nesaf mewn buddsoddiad adfywio £10.4 miliwn.



Croesawu'r cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ar ei ddosbarthiad o'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol i gynghorau ledled y rhanbarth.

Ionawr

Rhagfyr

Chwefror

Mawrth



Cymeradwyo Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn ffurfiol gan lywodraethau'r DU a Chymru.



Rhanddeiliaid yn ymweld â safle Defaid Llaeth Cymru - rhan o'n prosiect Hwb Economi Gwledig Glynllifon ehangach.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd



Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cynllun Datblygu Strategol

Lles Economaidd

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd



Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, sy'n defnyddio'r enw brand Uchelgais Gogledd Cymru, yn gorff cyhoeddus sy'n cynnwys ardal weinyddol chwe awdurdod lleol y Gogledd, sef cynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio, Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Mae cyfrifoldeb ar Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd am drafnidiaeth rhanbarthol, cynllunio strategol, ynghyd â gwella a hyrwyddo llesiant economaidd y gogledd.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Gogledd yn nodi gweledigaeth ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac integredig sy'n cefnogi twf economaidd, gwella cysylltedd a lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat. Wedi'i ddatblygu gan Uchelgais Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno gan awdurdodau lleol drwy gynlluniau'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol, gyda throsolwg gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth. Drwy flaenoriaethu trafnidiaeth cyhoeddus, teithio llesol a datrysiadau symudedd arloesol, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio gwella mynediad at swyddi a gwasanaethau, lleihau'r effaith amgylcheddol a chreu system trafnidiaeth mwy cysylltiedig a gwydn i Ogledd Cymru.

Cynllun Datblygu Strategol

Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn darparu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cynllunio ledled y gogledd, gan gydnabod bod cymunedau, marchnadoedd ac anghenion isadeiledd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol. Bydd yn cefnogi gweledigaeth gydlynus a hirdymor ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, isadeiledd, ansawdd bywyd a datblygiad cytbwys, tra'n cyd-fynd â gofynion statudol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cyflwyno ei Gytundeb Cyflawni, yn cynnwys datganiad o ymglymiad cymunedol ac amserlen, ac yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, mae'r gwaith i gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol dros y pum mlynedd i ddod, bellach wedi cychwyn.

Lles Economaidd

Yn ychwanegol i ddyletswyddau statudol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, mae cyfrifoldeb anstatudol i wella ac hyrwyddo lles economaidd Gogledd Cymru. Mae'r gwaith yma ar hyn o bryd yn cynnwys pump ffrwd gwaith craidd: Cynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Ynni Strategol ac y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Ar y cyd, mae'r gwaith hwn yn cefnogi economi'r rhanbarth ac yn cyfrannu tuag at dwf economaidd hirdymor ar draws Gogledd Cymru.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig - Uchafbwyntiau

Wrth i ni gyrraedd pennod newydd ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru, fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio, Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, wedi trosglwyddo ers 1 Ebrill 2025. Mae rhaglen uchelgeisiol a hirdymor o newid yn parhau i sefydlu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Ymysg yr uchafbwyntiau mwyaf dros y 12 mis a fu oedd:

- Penodi Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Portffolio llawn amser
- Penodi Ymgynghorwyr Anweithredol i gryfhau'r cysylltiad gyda'r sector breifat., gan ddarparu llais annibynnol a her adeiladol.
- Penodi arweinyddion Trafnidiaeth a Chynllunio i yrru ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Strategol yn eu blaenau
- Cytundeb parhaus gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu amrediad o wasanaethau cefnogi.
- Penodi swyddogion i yrru ymlaen ar weithrediadau a chyflawni rhaglenni
- Sefydlu pwyllgorau newydd.
- Adolygiad cydymffurfiaeth a'r Safonau Cymraeg.
- Cyflwyno ein Hadroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol cyntaf ar gyfer 2024/25.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol



Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Gweledigaeth hirdymor y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw y bydd gan ogledd Cymru rwydwaith trafnidiaeth integredig, diogel, cynaliadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant i bawb, cynhwysedd a llesiant.

Mae'r weledigaeth yn cael ei chefnogi gan bedair o amcanion SMART

- Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol
- Gwella hygyrchedd a dewis trafnidiaeth
- Galluogi twf economaidd cynaliadwy
- Galluogi datgarboneiddio trwy drosglwyddo i fflyd allyriadau sero

Daeth ein ymgynghoriad cyhoeddus a rhanddeiliaid ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i ben ym mis Ebrill 2025.

1,600+
o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad

67%
o ymatebion yr ymgynghoriad yn cytuno neu'n cytuno'n gryf efo'r weledigaeth a'r amcanion

Cafodd yr adborth wedi fwydo mewn i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.















Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Wedi'i gymeradwyo gan Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn Gorffennaf 2025.
Daeth yn bolisi yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru yn Medi 2025.

Wrth gymeradwyo'r Cynllun dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, bod y cynllun "yn gyflawniad mawr ac yn gam enfawr ymlaen ar gyfer cydweithio rhanbarthol" a chadarnhaodd ei fod yn "gyson a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac mae'r polisiau'n ddigonol ar gyfer gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn y rhanbarth."

£28m

o gyllid cyfalaf wedi ei sicrhau ar gyfer ymyriadau trafnidiaeth gynaliadwy i'w darparu yn 2026/27

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Cynllun Cyflawni sy'n nodi'r cynlluniau a allai gael eu cyflawni yng Ngogledd Cymru os oes cyllid ar gael. Gweithiodd Uchelgais Gogledd Cymru yn agos â'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth i flaenoriaethu pa rai o'r cynlluniau hyn sydd i'w hariannu gyda Chyllid Trafnidiaeth Rhanbarthol yn 2026/27. Bu i'r gwaith hwn sicrhau dros £28m o arian cyfalaf ar gyfer ymyraethau trafnidiaeth gynaliadwy i'w cyflawni yn 2026/27, sy'n gwella mynediad at swyddi, gwasanaethau, addysg a hamdden i gymunedau ledled y gogledd.

Dyraniad cyllid 2026/27

61%
ar gyfer cynlluniau cerdded, olwyno a beicio

19%
ar gyfer cynlluniau priffyrdd

7%
ar gludiant cyhoeddus

6%
ar gerbydau trydan

5%
ar gyfalaf diogelwch ffordd

Cynllun Datblygu Strategol



Cynllun Datblygu Strategol

Dechreuodd gwaith ar Gytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ym mis Ebrill 2025, gyda dogfen ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2025. Gwahoddwyd rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i gymryd rhan yn uniongyrchol i sicrhau bod y broses ddatblygu mor ddeallus â phosib.

Wedi ystyried yr adborth a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad, cymeradwyodd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd y Cytundeb Cyflawni drafft ym mis Medi 2025, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar adnabod a chymeradwyo cyllideb briodol ar gyfer paratoi'r CDS.

Ym mis Ionawr 2026, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb am 2026/27, oedd yn cynnwys darpariaeth i ddechrau gwaith ar yr CDS. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig gyflwyniad y Cytundeb Cyflawni drafft i Lywodraeth Cymru, aeth wedyn yn eu blaen i'w gymeradwyo o fewn wythnos o'i dderbyn.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn casglu tystiolaeth i gefnogi datblygiad yr Cynllun Datblygu Strategol.



Lles Economaidd



Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Cynllun Twf Gogledd Cymru


Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Ynni Strategol

Cronfa Ffyniant Gyffredin

Lles Economaidd

Cefnogi buddsoddiad, arloesedd, sgiliau a thwf cynaliadwy ar draws Gogledd Cymru.



Mae tudalennau **17-42** yn cyflwyno cyflawniadau, canlyniadau ac astudiaethau achos sy'n dangos sut mae'r rhaglenni hyn wedi cefnogi lles economaidd ledled Gogledd Cymru yn ystod 2025/26.

Parth Buddsoddi
Sir y Fflint a Wrecsam
Flintshire and Wrexham
Investment Zone

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam



funded by:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Mae Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn cael £160m o fuddsoddiad gan y Llywodraeth dros 10 mlynedd i yrru twf yn y sector gweithgynhyrchu uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'n cael ei gyflawni gan bartneriaeth o Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae hanes diwydiannol y rhanbarth yn ymestyn dros ganrif, o ddur, cemegolion ac ynni, i glystyrau awyrofod uwch, cerbydau, bwyd a gwyddorau bywyd sydd wedi tyfu ochr yn ochr â nhw. Mae cenedlaethau o weithwyr medrus wedi ffurfio gweithlu rhanbarthol lle mae gweithgynhyrchu wedi'i ymgorffori yn ei ddiwylliant. Mae'r gallu technegol, gwybodaeth am y sector a'r agwedd at waith wedi cymryd degawdau i'w datblygu.

Drwy adeiladu ar y dreftadaeth unigryw hon, mae'r Parth Buddsoddi yn cyflymu twf pellach mewn gweithgarwch gweithgynhyrchu, sgiliau, isadeiledd trafnidiaeth, safleoedd buddsoddi allweddol ac arloesedd. Mae'n rhaglen hirdymor i hyrwyddo'r hyn sydd gan y rhanbarth i'w gynnig a gwneud y mwyaf o effaith buddsoddiad yn y dyfodol: i fuddsoddwyr, busnesau, pobl leol a chymunedau.



Bydd y Parth Buddsoddi yn:

- Creu 6,000 o swyddi newydd - gan dyfu'r sector gweithgynhyrchu o ran swyddi, Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) a buddsoddiad mewn gweithgynhyrchu modern megis awyrofod, amddiffyn, peirianneg cerbydau, gwyddorau bywyd, bwyd a phecynnu bwyd.
- Denu buddsoddiad mewn twf busnes, a datblygiad cyffredinol o leiaf 5.5 miliwn tr.sg. o ofod llawr newydd i dyfu gallu ffisegol y sector i weithgynhyrchu a chyflogi.
- Creu tri safle treth, cynnig amrediad o ryddhad treth i fusnesau sy'n meddiannu, yn cynnwys rhyddhad trethi busnes, rhyddhad treth trafodion tir, mwy o lwfansau cyfalaf a rhyddhad cyfraniadau yswiriant gwladol i gyflogwyr.
- Helpu cymunedau lleol i gyflawni lefel sgiliau cyffredinol uwch yn y gweithlu gweithgynhyrchu a mwy o bobl ifanc yn ceisio cael swyddi o safon mewn rolau gweithgynhyrchu newydd sy'n gysylltiedig â sgiliau'r dyfodol.
- Cyflawni defnydd mwy sylweddol a boddhad uwch mewn trafnidiaeth gyhoeddus, wedi'i alluogi gan wasanaethau bws dibynadwy, aml, yn gweithredu ar lwybrau mwy uniongyrchol rhwng cymunedau a safleoedd cyflogaeth.

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Buddsoddiad llywodraeth o **£160M** dros 10 mlynedd

£1bn+ mewn buddsoddiad preifat wedi'i dargedu

6,000 o swyddi o ansawdd uchel

40% o'r economi rhanbarthol ar weithgynhyrchu

9 lleoliad yn barod am fuddsoddiad ar draws tri safle treth

5.5m sq ft o botensial datblygu newydd

2 ganolfan arloesi newydd sbon yn hyrwyddo twf a gwydnwch busnes



£5.5bn mewn allforion blynyddol o'r clwstwr presennol

£7.5m Grantiau busnes drwy'r rhaglen cefnogi busnes sy'n cael eu cyflawni gan yr awdurdau lleol

1 uned gynllunio ddynodedig, yn hwyluso caniatâd i fuddsoddwyr

Sgiliau a'r Gweithlu

31,000 o arbenigwyr gweithgynhyrchu yn y gweithlu lleol

120+ o interniaethau i raddedigion a lleoliadau i is-raddedigion

12 a 15 prentisiaeth gradd a phrentisiaethau peirianneg uwch, yn y drefn honno, y flwyddyn

100+ o gyrsiau hyfforddi ar gyfer uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu

300+ o gyfranogwyr mewn cyrsiau lefel uchel a micro-gymwysterau

3 a 6 cyfle ymchwil PhD a MRes, ,yn y drefn honno, yn gysylltiedig yn uniongyrchol â blaenoriaethau'r Parth Buddsoddi

Cynnydd yn 2025/26

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam wedi'i lansio yn swyddogol



Lansiodd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn swyddogol, gyda'r cyllid wedi'i ddyrannu, a'r cytundebau wedi'u llofnodi rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, ynghyd â Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r caniatadau hyn wedi galluogi rheolwyr rhaglen dynodedig i gael eu recriwtio, a dyrannu adnoddau arbenigol, yn cynnwys adnoddau cyfreithiol, ariannol a chynllunio, er mwyn gyrru'r cyflawniad ymlaen. Cafodd tri safle treth - Porth Glannau Dyfrdwy, Warren Hall a Stad Ddiwydiannol Wrecsam - eu dynodi ym mis Tachwedd 2025, gan ddarparu amrediad o ryddhad treth yn y parthau hyn, gan wneud y rhain yn safleoedd delfrydol i sefydlu a thyfu busnesau.



Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Cafodd y Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi ei chymeradwyo gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) ar 12 Mehefin 2025. Paratowyd y Strategaeth Sgiliau gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio gyda Phrifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a darparwyr annibynnol i osod rhaglen uchelgeisiol i ddenu pobl ifanc i rolau medrus, ymdrin â bylchau mewn cyfranogiad STEM, cadw mwy o raddedigion mewn gyrfaoedd gwerth chweil a chynyddu cynrychiolaeth merched a grwpiau lleiafrifol yn y sector gweithgynhyrchu.

Cyllid Sgiliau



Mae £12 miliwn cychwynnol wedi'i ddyrannu i Brifysgol Wrecsam a Choleg Cambria dros pum mlynedd. Bydd y cyllid yma yn galluogi cannoedd o gyrsiau hyfforddi newydd, gan ddarparu cyfleoedd uwchsgilio ac ailsgilio i o leiaf 1,500 o bobl. Bydd cyrsiau hyfforddi wedi'u dylunio ar y cyd â chyflogwyr, a 12 prentisiaeth gradd newydd y flwyddyn (yn cynnwys mewn peirianneg uwch, digidol a busnesau SME).

Lansiwyd rhaglenni Grantiau Busnesau Bach



Lansiwyd rhaglenni Grantiau Busnesau Bach gan gynghorau Sir y Fflint a Wrecsam ym mis Ionawr 2026. Mae grantiau hyd at £100,000 ar gael i gefnogi Busnesau Bychan a Chanolig (SME) yn y sector gweithgynhyrchu uwch i dyfu, creu swyddi ac arloesi. Gydag isafswm o 30% o arian cyfatebol wedi'i dalu gan y busnes, gall y grantiau yma alluogi prynu offer newydd, addasu eiddo neu ddatgarboneiddio, neu gefnogi achrediad neu ardystiad.



Gwelliannau i gysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus

Mae gwaith ar y gweill gyda Thrafnidiaeth Cymru i ddatblygu'r achosion busnes ar gyfer nifer o brosiectau rheilffordd a bws fydd yn gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus i safleoedd cyflogaeth allweddol ledled Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd yn cynyddu dalgylch y gweithlu ac yn blaenoriaethu cysylltu cymunedau lleol, fel nad yw mynediad at swyddi newydd yn ddibynnol ar fod yn berchen car a bod cyfleoedd ar agor i bawb. Rydym yn disgwyl i wedd gyntaf y prosiectau yma ddod ymlaen i'w cymeradwyo yn y flwyddyn i ddod. Mae Porthladd Caergybi, Maes Awyr Manceinion a'r M53/M56 oll o fewn cyrraedd, gan roi mynediad rhwydd i fusnesau yn y Parth Buddsoddi at farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol a chadwyni cyflenwi - ychydig iawn o leoliadau Parth Buddsoddi eraill sydd gan yr un mynediad.

Bwrdd Ymgynghorol



Mae Bwrdd Ymgynghorol Parth Buddsoddi, wedi'i sefydlu i gymryd trosolwg o'r gwaith o'i gyflawni a'r cynnydd. Gyda chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, cynrychiolwyr Seneddol, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Prifysgol Wrecsam, AMRC Cymru, Cyngor Busnes Gogledd Cymru ac arweinyddion busnes, bydd yn sicrhau bod arbenigedd yn cael ei harneisio a'r momentwm yn cael ei gadw am y blynyddoedd i ddod.



Cynllun Twf Gogledd Cymru
North Wales Growth Deal

Cynllun Twf Gogledd Cymru

funded by:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Trosolwg o'r Cynllun Twf

Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.

Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.

Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Buddsoddiad

£240m
Targed buddsoddiad cynllun twf


Cyfanswm y buddsoddiad targed:
dros **£1bn**

Amcanion Gwariant

Creu hyd at to
4,200
o swyddi newydd

Ein Rhaglenni











Cyflawniad y Cynllun Twf hyd yma, mewn rhifau

7
Prosiect wrthi'n cael eu cyflawni

10
Prosiect wedi'u cymeradwyo ond ddim yn y cam cyflawni eto (arian wedi'i ymrwymo)

8
Achos busnes yn datblygu (arian wedi'i ymrwymo)

63
o swyddi a grëwyd
(63 o swyddi newydd, 58 o swyddi adeiladwaith)

Gwariant Cynllun Twf o
£30.65m

Cyfanswm buddsoddiad o
£34.21m

Incwm Refeniw o
£7.05m
wedi'i sicrhau

5,885
o unigolion wedi ymgysylltu mewn sesiynau wedi ffocysu ar yrfaoedd

2,349m²
o ofod llawr wedi'i ddatblygu

106
o Gamau Gweithredu i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol

26
Cydweithio o'r newydd yn cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi Prosiectau'r Cynllun Twf

163
Cynnyrch rheoli gwybodaeth newydd wedi'u creu a'u rhannu

Academi Croeso

Mae Academi Croeso, y cyn Rwydwaith Talent Twristiaeth, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, yn fodel prif ganolfan a lloerennau sydd wedi'i ddylunio i greu un llwybr cydlynol i hyfforddiant, prentisiaethau a datblygiad gyrfaoedd ar draws yr economi ymweld. Cyrhaeddodd y prosiect garreg filltir fawr yn 2025/26 gyda lansiad swyddogol y brand newydd yn Theatr Clwyd ym mis Tachwedd. Daeth y lansiad â phartneriaid a rhanddeiliaid at ei gilydd o bob cwr o'r sector twristiaeth a lletygarwch ac roedd yn gam pwysig i gryfhau piblinell sgiliau'r rhanbarth ar gyfer un o ddiwydiannau mwyaf sefydledig a nodedig y gogledd.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y gwaith cyflawni yn parhau ar draws safleoedd partneriaid, gyda gweithgarwch adeiladu yn bwrw yn ei flaen ym Mhortmeirion a gwaith yn parhau gyda Zip World a phartneriaid eraill. Hefyd, fe sicrhaodd y prosiect gymeradwyaeth am fwy o amser i ddod ag Achos Cyfiawnhad Busnes yn ei flaen ar gyfer lloeren newydd, gan sicrhau bod y buddsoddiad sy'n weddill yn cael ei dargedu mewn ffordd sy'n cefnogi'r effaith hirdymor. Mae Academi Croeso yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth sgiliau ar gyfer y dyfodol, cryfhau cysylltiadau rhwng hyfforddiant a diwydiant, a chefnogi sector twristiaeth a lletygarwch mwy gwydn yng ngogledd Cymru.





> Mae Academi Croeso yn hwyluso mynediad at gyfleusterau hyfforddiant o'r radd flaenaf drwy gysylltu addysg gyda diwydiant. Drwy gefnogi dysgwyr a gweithwyr y dyfodol yn y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch i'w dysgu a'u hyfforddi mewn amgylcheddau go iawn, y mae'n sicrhau eu bod yn gwbl barod i ymateb i anghenion economi Gogledd Cymru heddiw ac yn y dyfodol.
>
> **Aled Jones-Griffith**
> **Prif Weithredwr**

£3.94m
Cyfanswm buddsoddiad i ddyddiad

25
Prentis wedi cofrestru hyd yma

9
Menter wedi'u cefnogi hyd yma

£1.3m
o incwm cyfalaf wedi'i sicrhau gan y prosiect hyd yma

Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Agorwyd CanfodAu - Canolfan Peirianneg ac Arloesi newydd yng nghampws Plas Coch Prifysgol Wrecsam, yn swyddogol ym mis Tachwedd 2025. Mae'r cyfleuster arloesol hwn yn darparu gofod am waith ymchwil, arloesedd, a chydweithio rhwng myfyrwyr, ymchwilwyr a busnesau, ac yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel.

Yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu uwch, deunyddiau cyfansawdd, integreiddio opteg a thechnolegau hydrogen, bydd CanfodAu yn cefnogi cyd-greu cynnyrch a phrosesau newydd sy'n cyflymu datgarboneiddio a thrawsnewid diwydiannol. Drwy arfogi busnesau lleol gyda mynediad at declynnau, arbenigedd a seilwaith arbenigol, mae'r prosiect yn anelu at droi gwaith ymchwil a datblygu yn werth masnachol a helpu busnesau Gogledd Cymru i gystadlu yn fyd-eang.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith pellach ar gaffael offer arbenigol a chymeradwywyd buddsoddiad ychwanegol i wella'r ddarpariaeth. Parhaodd y gwaith ar weithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys datblygu'r labordy hydrogen ac adnewyddu cyfleuster OpTIC ar safle'r Brifysgol yn Llanelwy. Bydd y Ganolfan Opted a Pheirianneg Menter yn helpu leoli Gogledd Cymru fel lleoliad lle y gall gweithgynhyrchu gwerth uchel dyfu, arloesi a denu buddsoddiad.



> “Mae CanfodAu yn ymgorffori'r uchelgais wrth galon gweledigaeth Prifysgol Wrecsam i fod yn brifysgol ddinesig fodern arweiniol yn y byd: yn cyflawni'r sgiliau, arloesedd a phartneriaethau sy'n creu swyddi, gwella cynhyrchedd a gyrru twf cynhwysol ledled y gogledd. Wedi'i ddylunio fel catalydd ar gyfer cydweithio, gwaith ymchwil a mentergarwch, mae'r cyfleuster unigryw ac arloesol hwn yn gyflym iawn wedi dod yn ased arweiniol ar gyfer y rhanbarth. Mae cael cydnabyddiaeth genedlaethol am Brosiect Adeiladu'r Flwyddyn yng Ngwobrau ‘Constructing Excellence in Wales’, ynghyd â'r gydnabyddiaeth i Brifysgol Wrecsam fel Prifysgol Gymreig y Flwyddyn gan y Daily Mail, yn adlewyrchu cryfder ein cyd-uchelgais a'r effaith drawsnewidiol y mae'r buddsoddiad yma yn ei gael ar ein cymunedau, ein busnesau a'n dysgwyr.”

Yr Athro Joe Yates

Is-Ganghellor a Prif Weithredwr, Prifysgol Wrecsam



- Cyfanswm buddsoddiad o £12.25m (i ddyddiad)
- Creu 13 o swyddi uniongyrchol (i ddyddiad)
- 75 o fyfyrwyr wedi cwblhau cymwysterau (i ddyddiad)
- 2,187m2 o arwynebedd llawr ymchwil wedi'i greu (i ddyddiad)
- 26 menter wedi'u cefnogi (i ddyddiad)



Cydnerth

Mae prosiect Cydnerth wedi bwrw ymlaen i gael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiect yn cefnogi datblygiad ynni llanw Morlais drwy fuddsoddi mewn isadeiledd i gysylltu â'r Grid Cenedlaethol, fel bod modd gwneud rhagor o ddefnydd o dyrbinau llanw a chefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy o un o asedau carbon isel pwysicaf Gogledd Cymru.

Cwblhawyd y cytundeb benthyciad rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Menter Môn yn ystod y flwyddyn, gyda thri taliad benthyciad wedi'u prosesu erbyn mis Mawrth 2026. Aethpwyd ymlaen â gweithgarwch adeiladu ym Mharc Cybi, Caergybi, gan gynnwys gwaith i dynnu ceblau drwy ddwythellau i ymestyn isadeiledd Morlais a'i gysylltu i'r grid. Mae'r prosiect bellach yn bwrw ymlaen yn dda wrth gyflawni, gyda'r monitro buddion wedi cychwyn a gweithgarwch pellach yn parhau i 2026/27.

Cyfanswm buddsoddiad o £8.87m (i ddyddiad)

4
Swydd wedi'i creu (i ddyddiad)

73
Digwyddiadau ymgysylltu â chyfleoedd gyrfa (i ddyddiad)

69
Camau a gymerwyd i ddatblygu/cryfhau cadwyni cyflenwi lleol

3
Cam Gweithredu wedi'u cymryd i wella bioamrywiaeth (i ddyddiad)



"Mae cefnogaeth Uchelgais Gogledd Cymru yn hanfodol i sefydlu diwydiant ynni morol newydd yng Ngogledd Cymru, gan sicrhau mynediad i'r farchnad a chyfleoedd swyddi hirdymor. Roedd symud Cydnerth i'r cam adeiladu yn garreg filltir arwyddocaol i'r rhanbarth. Bydd yn arwain at gryfhau cadwyni cyflenwi lleol, cefnogi twf economaidd cynaliadwy, ac yn sicrhau safle Gogledd Cymru fel prif gyfrannwr yn nyfodol cynhyrchu ynni glân."

Gerallt Llywelyn Jones, Cyfarwyddwr Menter Môn Morlais Cyf.

Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+

Bu'r Ganolfan Biodechnoleg Amgylcheddol+ yn parhau i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiect yn cefnogi uchelgais Prifysgol Bangor i ddatblygu galluedd arweiniol, fyd-eang yn y gwaith o ganfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol, gan greu llwyfan ar gyfer gwaith ymchwil, cydweithredu a buddsoddiad yn y dyfodol.

Cafodd y cyfleusterau labordy yn Henfaes eu hadnewyddu'n llawn yn ystod y flwyddyn, ac roedd offer arbenigol yn parhau i gyrraedd, yn cynnwys y prif bioadweithydd. Fe wnaeth y prosiect adnabod tanwariant, a chymeradwywyd cais am newid i ail-ddyrannu cyllid tuag at fuddion ychwanegol, yn cynnwys cydweithio a gofod hyfforddi a galluedd gwell i wneud gwaith ymchwil a datblygu. Mae'r prosiect yn agosáu at ddiwedd ei gam cyflawni, gyda'r buddion eisoes yn cael eu gwireddu a gweithgaredd pellach yn parhau i 2026/27.



"Mae'r buddsoddiad yma yn y Ganolfan Biodechnoleg Amgylcheddol+ yn adeiladu ar waith ymchwil grŵp sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei ragoriaeth. Bydd y buddsoddiad a gefnogir gan Gynllun Twf Gogledd Cymru yn galluogi'r tîm i ddod â'r rhagoriaeth hwnnw ymlaen i gyflawni ar gyfer yr economi rhanbarthol. Mae'r buddsoddiad wedi golygu bod modd sefydlu cyfleuster arbenigol sydd wedi'i arfogi i gynyddu'r gwyddorau a'r gwaith gyda'r diwydiant i uwchsgilio a chyfieithu'r wyddoniaeth yn gynnyrch a phrosesau newydd."

Yr Athro Paul Spencer, Dirprwy Is-ganghellor

Cyfanswm Buddsoddiad o £2.56m (i ddyddiad)

Incwm Refeniw o £2.64m wedi'i sicrhau (i ddyddiad)

8
o swyddi uniongyrchol newydd (i ddyddiad)

72
o gynnyrch rheoli gwybodaeth newydd wedi'u creu a'u rhannu

26
o fyfyrwyr yn cwblhau cymwysterau (i ddyddiad)

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Cronfa Ynni Glân

Cronfa Ynni Glân
Clean Energy Fund

Ym mis Gorffennaf 2025, lansiwyd cronfa £24.6 miliwn i ddarparu cefnogaeth ariannol hanfodol i fusnesau a sefydliadau sector gwirfoddol, sydd am gyflawni prosiectau ynni glân neu ddatgarboneiddio. Daeth y digwyddiad lansio â mwy na 90 o ran-ddeiliaid at ei gilydd, ac roedd yn ddechrau llwybr newydd o gefnogi ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol ledled y gogledd.

Mae'r gronfa gyffredinol, a fydd yn rhedeg dros gyfnod o bum mlynedd i ddechrau, yn cynnwys dwy is-gronfa allweddol ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Is-gronfa sector gwirfoddol dan arweiniad WCVA i brosiectau gan elusennau, mentrau cymdeithasol a phrosiectau dan arweiniad y gymuned; gydag UMi yn cyflawni is-gronfa sector preifat i fusnesau. Gall trydedd gronfa wrth gefn ystyried ceisiadau gan sefydliadau eraill a modelau cyllido amgen.

Mae'r gronfa yn ceisio cyflawni buddsoddiad o £100m yn y rhanbarth, creu 150 o swyddi newydd, a thorri hyd at 125,000 tunnell cyfwerth o garbon deuocsid.

Drwy'r flwyddyn, derbyniodd y gronfa fynegiant o ddiddordeb a cheisiadau ar draws ei is-gronfeydd. Ymysg y gweithgareddau hyrwyddo roedd digwyddiadau, podlediadau, erthyglau, sioeau ac ymgysylltu â darpar ymgeiswyr a phartneriaid cyflawni. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Panel Buddsoddi cyntaf wedi'i gynnal ac roedd y prosiectau cyntaf wedi'u cymeradwyo. Bellach, mae'r Gronfa Ynni Glân yn rhan bwysig o'r dirwedd ynni rhanbarthol, gan roi llwybr ymarferol i brosiectau symud o'r cam dichonolrwydd ac uchelgais draw tuag at fuddsoddi a chyflawni.





"Mae'r buddion economaidd ac amgylcheddol sy'n dod gyda'r cynlluniau yn sylweddol, ac yn gwbl unol â'n dull eco-gyfeillgar o ariannu sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru."

Gwenith Elias, Rheolwr Buddsoddi Ynni Glân, WCVA

"Mae buddsoddi mewn ynni glân a phrosiectau datgarboneiddio o fudd mewn sawl agwedd i fusnesau gan y gall y deilliannau arwain at gostau is, gwell effeithiolrwydd a datgloi cyfleoedd twf newydd."

Matt Popple, Rheolwr Partneriaethau a Phobl, UMi



Symud i gyflawni

Mae nifer o brosiectau wedi sicrhau cymeradwyaeth achos busnes llawn ac yn symud i gael eu cyflawni.



Parc Bryn Cegin

Mae Timau Dylunio ac Ymgynghori ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru i gael cynllun prosiect a chyflwyno am ganiatâd cynllunio a chaniatadau eraill. Disgwylir i unedau cyflogaeth newydd gael eu darparu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, gan ddarparu 1,730 metr sgwâr o ofod llawr busnes modern, ynni-effeithlon ym Mharc Bryn Cegin.




Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn

Bu i brosiect safleoedd ac adeiladau Gogledd Môn sicrhau cymeradwyaeth i'r Achos Busnes, ac mae ar hyn o bryd yn cael ei symud tuag at gyflawni. Bydd y prosiect yn ailwampio cyn adeilad y Derfynfa Forol ym Mhorth Amlwch ac yn adeiladu deg uned fusnes ar y Stad Ddiwydiannol gerllaw. Gyda'i gilydd, disgwylir i'r datblygiadau hyn gefnogi 95 o swyddi newydd, a chreu 2,300m^2 o ofod masnachol newydd.

Porth y Porthladd Rhydd

Bu i'r prosiect Porth y Porthladd Rhydd sicrhau cymeradwyaeth i ymuno â'r Cynllun Twf. Bydd y prosiect yn caffael, dymchwel, dad-halogi, creu plotiau datblygu a darparu mynediad a phrif wasanaethau i'r cyn safle Peboc/Eastman yn Stad Ddiwydiannol Parc Bryn Cefni. Yn ogystal, bydd pum uned ddiwydiannol ysgafn yn cael eu creu ar Blot 2 ym Mharc Diwydiannol Tregarnedd a dod â Phlot 3 yn ei flaen i'w werthu i'r sector preifat er mwyn ei ddatblygu.



Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

Cytunwyd ar ddull mewn camau ar gyfer y prosiect, sicrhawyd y contractau ar gyfer y wedd gyntaf er mwyn gwaith galluogi a gwaith lliniaru ecolegol. Mae'r prosiect yn ceisio ail-ddatblygu ac adfer y safle 53 acer segur drwy gyflwyno tai newydd, unedau masnachol a gofodau cymunedol gwyrdd yno.





Porthladd Mostyn

Cymeradwywyd yr achos busnes, a cwblhawyd yr ymarferiad caffael i benodi prif gontractwr. Mae'r prosiect yn cynnwys gwelliannau i'r angorfeydd presennol ac ailddatblygu safle Marsh Row. Mae'r gwelliannau wedi'u cynllunio i sicrhau bod y porthladd yn gallu trin y genhedlaeth nesaf o gydrannau gwynt ar y môr mwy a darparu ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ar draws y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy.



Egni

Sicrhawyd cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect, fydd nawr yn gweld y prosiect yn bwrw yn ei flaen i'r cam adeiladu. Bydd yr ail adeilad hwn yn M-SParc yn ehangu gallu'r safle i gefnogi busnesau, ymchwilwyr ac arloeswyr sy'n gweithio ar draws ynni carbon isel a thechnolegau uwch.

Hwb Economi Wledig Glynllifon

Dathlodd Defaid Llaeth Cymru, rhan o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon, fod y prosiect yn symud i'r cyfnod cyflawni gyda digwyddiad torri'r dywarchen ar y safle yn ystod mis Chwefror. Mae'r prosiect yn gosod Gogledd Cymru fel arweinydd byd-eang mewn cynhyrchu llaeth cynaliadwy yn ogystal â chreu swyddi o ansawdd uchel yn y gymuned wledig. Mae gwaith yn parhau ar yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer elfen Llaeth Cynaliadwy'r prosiect.



Society 5.0

Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer prosiect Cymdeithas 5.0 wedi cael cymeradwyaeth ac wedi ymuno'n swyddogol â'r Cynllun Twf. Bydd y prosiect yn gwella'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter gan alluogi i'r diwydiant gael mynediad at ragor o adnoddau peirianneg hynod-fanwl o'r radd flaenaf. Gan adeiladu ar gryfderau'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter, mae'n ymestyn manteision y tu hwnt i'r cwmpas gwreiddiol, gan roi hwb i sgiliau a chynhyrchiant, gyrru arloesedd mewn cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau ledled Gogledd Cymru.



Y Rhaglen Ddigidol yn symud i gael ei chyflawni



Di-wifr Uwch

Ar ôl sicrhau cymeradwyaeth i'r achos busnes ym mis Gorffennaf 2025, rydym yn paratoi i lansio cronfa newydd £18.8 miliwn i gefnogi busnesau yn y rhanbarth i uwchraddio eu systemau technoleg di-wifr. Bydd y Gronfa yn rhedeg tan fis Mawrth 2030 ar gyfer busnesau sydd â phrosiectau wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Bydd cyllid grant ar gyfer hyd at 50% o gostau prosiect cymwys yn cael ei ddyrannu, gyda grantiau unigol rhwng £20,000 a £2 filiwn ar gael.

Mae technoleg ddi-wifr uwch yn cynnwys y Rhyngrwyd Pethau (IoT), 5G, Wi-Fi a'r systemau cyfathrebu lloeren diweddaraf, pob un ohonynt yn helpu busnesau i wella eu cysylltedd, gwella cynhyrchedd, awtomeiddio prosesau a gweithredu'n fwy effeithlon. Gall y technolegau hyn gefnogi gweithgareddau fel monitro o bell, rhannu data a gweithrediadau doethach ar draws ystod eang o ddiwydiannau.



4G+

Mae'r prosiect 4G+ yn paratoi i lansio dwy ffrwd arian grant wedi'u targedu i gefnogi cyflawniad y isadeiledd symudol a helpu i ddatgloi cyfleoedd datblygu ar draws safleoedd economaidd allweddol, llwybrau trafnidiaeth, a hybiau busnes a thwristiaeth yn y gogledd, gan gefnogi twf, buddsoddiad a defnyddio 5G yn y dyfodol.

Cefnogodd y prosiect 4G+ y defnydd cyntaf o gell fychan gydag O2 ac Ontix, gan wella cysylltedd symudol yn Sir y Fflint. Mae pedwar safle wedi'u gosod, yn cynnwys Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, gan dynnu sylw at ymrwymiad O2 i gefnogi'r diwydiant a chymunedau lleol fel ei gilydd. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi chwarae rôl allweddol drwy helpu cynghorau i gyflwyno Cytundebau Mynediad Agored, sy'n galluogi darparwyr telecoms i ddefnyddio isadeiledd y cyngor a chyflymu gwelliannau cysylltedd ar draws y rhanbarth.

Fe wnaethom lansio Fforwm Telecoms Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n dod â phartneriaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus a phreifat at ei gilydd i gryfhau'r isadeiledd ffôn symudol a band llydan, ymdrin â heriau cyfathrebu digidol, a chefnogi trawsffurfiad digidol y rhanbarth.



LPWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Trefn Hir)

Mae'r prosiect hwn yn anelu at ddarparu gorchudd eang a hygyrch LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Trefn Hir) - gan gynnig ateb cost-effeithiol i fusnesau ac defnyddwyr y sector cyhoeddus i fabwysiadu cymwysiadau Rhyngrwyd Pethau. Disgwylir iddo ddarparu dros 130 o borthi gwestai a gynhelir gan gynghorau i wella cysylltedd ac effeithlonrwydd ar draws sawl gwasanaeth cyhoeddus tra'n darparu mynediad i'r rhwydwaith i ddefnyddwyr preifat i alluogi treialu ac arloesedd yn eu busnesau.

Yn 2026, arweiniodd Uchelgais Gogledd Cymru ar brosiect wedi ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan ddarparu cymorth i 16 o fusnesau amaethyddol ledled y rhanbarth i brofi'r dechnoleg. O ganlyniad, cafodd amrywiaeth eang o fanteision busnes eu hadnabod yn llwyddiannus mewn gwahanol fathau o ffermydd ac mae'r dechnoleg yn parhau i'w defnyddio ar ôl y prosiect. Bydd mwy o ddiwydiannau yn cymryd rhan drwy gydol y prosiect i hyrwyddo potensial LoRaWAN ar draws yr economi.

Gwerth Cymdeithasol yn y Cynllun Twf



Rydym wedi mynd ati'n gyson i wneud y mwyaf o'r buddion rhanbarthol a ddaw drwy fuddsoddiad cyfalaf y Cynllun Twf. Mae ein hegwyddorion caffael yn rhoi pwyslais gryf ar ychwanegu gwerth, gydag ymrwymiad clir i ymgorffori gwerth cymdeithasol ar draws yr hyn sy'n cael ei gyflawni gan y Cynllun Twf.

Mae gofyn i bob ymarferiad caffael dros £100k gynnwys ymrwymiadau gwerth cymdeithasol, gyda disgwyl i arianwyr prosiect weithredu pwysoliad gwerth cymdeithasol o 15% yn eu meini prawf sgorio. Y prif nod yma yw sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol a buddion cymunedol o brosiectau ond amcan eilaidd yw cefnogi cwmnïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau contractau gan eu bod yn aml yn lleoedd da i ddarparu gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol.

Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, gan sicrhau bod twf economaidd yn cael ei gyflawni law yn llaw â buddion amgylcheddol a chymunedol.

Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd (yn cynnwys TAW)
£72.3m

86%
o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i gyflenwyr o ogledd Cymru

79%
o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i gyflenwyr bach a chanolig

Hwb Economi Wledig Glynllifon

Gwerth y cytundeb
£3.7M
Gwerth Cymdeithasol
£33k

Dyfarnwyd cytundeb gwerth £3.7m i gwmni Adeiladwaith OBR sydd wedi ei leoli ar Ynys Môn i ymgymryd a'r prif becyn gwaith ar adeilad Llaeth Defaid Cymru. Roedd ei cynnig gwerth cymdeithasol yn cyfateb i £33,042.

Egni

Gwerth y cytundeb
£844k

Rhoddwyd contract gwaith Cam 2 M-SParc i'r cyflenwr lleol o ogledd Cymru, Wynne Construction. Mae gwerth y contract o £844k, yn cynnwys cynnig gwerth cymdeithasol o:

- 30 wythnos o leoliadau profiad gwaith
- Recriwtio 5 o swyddi FTE lleol ar gyfer prosiect Egni.
- 295 wythnos o hyfforddiant drwy ddysgwyr newydd neu brentisiaethau
- Amcangyfrif o £5,566,000 i'w wario yn y gadwyn gyflenwi leol drwy'r cytundeb.

Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter

Gwerth y cytundeb
£1.5M
Gwerth Cymdeithasol
£86k

Dyfarnodd Prifysgol Wrecsam ddau gytundeb cyfanswm gwerth £1.5M ar gyfer Newidiadau Mecanyddol, Trydanol a Chyflenwi, ynghyd a Cyflwyno a Gosod Winder Ffilament. Dyfarnwyd y contractau Newidiadau Trydanol i AJ Field, cyflenwr o Sir Fflint. Cyfanswm y gwerth cymdeithasol cyfansawdd oedd £86k:

- Prentisiaethau
- Cyfleon gwaith
- Gwariant yn y gadwyn gyflenwi leol
- Cyfraniad o £5,000 tuag at brosiect cymunedol yn Wrecsam.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

Sgiliau a Chyflogaeth



funded by:
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership



Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Roedd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) Gogledd Cymru wedi parhau i chwarae rôl allweddol i gefnogi blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru drwy sicrhau bod datblygiad y gweithlu a'r ddarpariaeth sgiliau yn parhau i fod yn unol ag uchelgeisiau economaidd y rhanbarth, buddsoddiadau mawr a chyfleoedd twf yn y dyfodol.

Roedd cefnogi Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn flaenoriaeth allweddol yn ystod 2025/26. Arweiniodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ddatblygiad y Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi, ac fe helpodd i adnabod y gofynion gweithlu oedd eu hangen i gefnogi twf yn y dyfodol. Bu i'r gwaith hwn gyfrannu at gymeradwyo Rhaglen Sgiliau'r Parth Buddsoddi, gan sicrhau £12 miliwn i Goleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam i gryfhau sgiliau gweithgynhyrchu uwch, datblygu cyfleusterau arbenigol ac adeiladu'r piblinellau talent sydd eu hangen i gefnogi buddsoddiad yn y dyfodol ledled Gogledd Cymru.









Hefyd, bu i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gefnogi cyflawniad Cynllun Twf Gogledd Cymru drwy gynllunio'r gweithlu, deallusrwydd y farchnad lafur ac ymgysylltu ag arianwyr y prosiect. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd Prosiect Prince (Knauf), Society 5.0 (Prifysgol Wrecsam), Ysgol Fusnes Albert Gubay (Prifysgol Bangor) a Phrosiect Egni (M-SParc), i Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan roi diweddariadau ar gyflawni, gofynion sgiliau a'r galw yn y dyfodol am weithlu. Roedd y trafodaethau hyn yn helpu i alinio anghenion gweithlu'r prosiect â'r ddarpariaeth sgiliau rhanbarthol ac yn cryfhau'r cydweithio rhwng prosiectau, cyflogwyr a darparwyr addysg.

Ar y cyd â'r gwaith hwn, cefnogodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gynllunio sgiliau yn gysylltiedig â chyfleoedd, yn cynnwys HyNet, ynni adnewyddadwy, gwynt alltraeth a datblygiadau niwclear sydd ar y gorwel.

Hefyd, bu'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio'n agos â chyflogwyr, yn cynnwys busnesau SME, gan helpu busnesau i gael mynediad at gefnogaeth sgiliau, hysbysu'r ddarpariaeth hyfforddiant a datblygu'r gweithlu sydd ei angen ar gyfer twf a chynhyrchedd.

Roedd Porth Sgiliau Gogledd Cymru yn parhau i gysylltu unigolion a chyflogwyr gyda swyddi, hyfforddiant, gwybodaeth gyrfaoedd a chefnogaeth busnes, tra'n hyrwyddo cyfleoedd sy'n codi o fuddsoddiad rhanbarthol a thwf economaidd.







Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd fwrw ymlaen i ddatblygu'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru nesaf (ar gyfer y cyfnod 2026-2029).

Drwy ymgysylltu eang â chyflogwyr, darparwyr, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid rhanbarthol, bydd y Cynllun yn sefydlu blaenoriaethau sgiliau'r rhanbarth ac yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r cyfleoedd economaidd sy'n datblygu.

Mae disgwyl i'r Cynllun ar ei newydd-wedd gael ei lansio yn ystod yr Hydref eleni.

Ynni Strategol



funded by:


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ynni Strategol



Cynlluniau Ynni Ardal Leol

Mae Pum Cynllun Ynni Ardal Leol wedi'u cymeradwyo gan awdurdodau lleol, gydag un ar ôl yn y broses gymeradwyo wleidyddol.



Hwb Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru

Fe wnaethom lansio Hwb Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru, sy'n rhoi ffynhonnell ganolog i ran-ddeiliaid gael arweiniad, teclynnau, astudiaethau achos a gwybodaeth cyllido i gefnogi prosiectau datgarboneiddio.



Dashfwrdd Ynni

Bu i ni ddatblygu dashfwrdd i fonitro'r defnydd newydd o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel ar draws pob ardal awdurdod lleol, ac roedd hyn yn dangos y broses ddatgarboneiddio yng Ngogledd Cymru yn glir.



Cydweithio

Aethom ati i fapio prosiectau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio ledled y gogledd i wella gweledded gweithgarwch rhanbarthol, i gefnogi cydweithio ac i adnabod cyfleoedd buddsoddi.



Prosbectws Buddsoddi

Fe gynhyrchom Brosbectws Buddsoddi Ynni Strategol Gogledd Cymru i arddangos y prosiectau ynni â blaenoriaeth, denu buddsoddiad a chefnogi cyflawniad prosiectau sydd wedi'u hadnabod drwy'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol a'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol.

Cronfa Ffyniant Gyffredin



Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cronfa Ffyniant Gyffredin

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi sicrhau dros £1m o Arian Ffyniant Gyffredin i gyflawni ffrydiau gwaith sy'n gwneud y mwyaf o'r buddion a'r cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau a chymunedau ledled y gogledd, drwy fuddsoddiadau sy'n cyd-fynd â Chynllun Twf Gogledd Cymru. Roedd y gweithgareddau yma wedi helpu i gryfhau effaith buddsoddiad rhanbarthol drwy gefnogi twf busnes, sgiliau, arloesedd, ynni, cysylltedd digidol a gwydnwch cymunedol.

Daeth gweithgarwch y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ben ym mis Mawrth 2026, gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi'u dylunio i rannu dysgu a chefnogi cyfleoedd yn y dyfodol. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad trosglwyddo gwybodaeth am ynni cymunedol, dan arweiniad cwmni ymgynghori ynni Greener Edge, ac roeddynt yn helpu'r cyfranogwyr i ddeall sut fyddai modd bwrw eu prosiectau yn eu blaenau drwy'r Gronfa Ynni Glân. Roedd y prosiect Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart hefyd yn arddangos defnyddiau ymarferol y dechnoleg Rhyngrwyd Pethau (IoT) mewn lleoliadau gwledig, gan gyfuno â digwyddiad trosglwyddo gwybodaeth arall yn Fferm Derwydd, Corwen, i ffermwyr a phobl broffesiynol mewn ardaloedd gwledig.

Porth Sgiliau Gogledd Cymru

Drwy weithgarwch wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, gweithiodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gyda Loud Speaker a chyd-weithiwyr yn y rhanbarth i gyflwyno sawl sesiwn gan ymgysylltu â mwy na 70 o bobl ifanc ledled y gogledd. Roedd y gweithdai yn darparu gwybodaeth am y farchnad lafur, yn archwilio llwybrau gyrfa lleol ac yn cynnwys cipolwg a hyfforddiant ar sgiliau rhyngbersonol, gan helpu dysgwyr i ddeall cyfleoedd yn y dyfodol yn well a'r sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.

Roedd adborth a gasglwyd trwy weithdai yn llywio'r Adroddiad Cipolwg ar Farn Pobl Ifanc, gan ddarparu tystiolaeth ynghylch dyheadau gyrfa, rhwystrau i ddilyniant ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi a llywio ymgyrchoedd a chyfathrebu sydd ar y gweill sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc, gan helpu i hyrwyddo cyfleoedd yn y rhanbarth a chodi ymwybyddiaeth o sgiliau gwyrdd a gyrfaoedd yn y dyfodol ledled Gogledd Cymru.

> Diolch yn fawr iawn i'r Porth Sgiliau am gynnal y sesiwn adborth gyda Digwyddiadau Loud speaker yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Roedd yn gyfle gwerthfawr iawn, ac rwyf eisiau sôn yn arbennig pa mor anhygoel a diddorol oedd Rich drwy'r cwbl. Gwnaeth waith gwych o annog y dysgwyr i gymryd rhan ac roedd yn wych clywed eu profiadau a'u gwylio yn cymryd rhan mor fawr. Roedd y sesiwn ar sgiliau rhyngbersonol yn hynod effeithiol ac roedd yn amlwg bod y dysgwyr wedi elwa cymaint o gyflwyniad a dull Rich.
>
> **Shoned Owen, Swyddog Mentergarwch Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor**







NORTH WALES SKILLS portal SGILIAU GOGLEDD CYMRU

Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Dyluniwyd rhaglen gefnogaeth wedi'i thargedu i 16 o ffermydd ledled y gogledd, i dreialu'r technolegau digidol diweddaraf a mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Roedd grym arloesedd technolegau'r Rhyngrwyd Pethau (IoT) a LoRaWAN (Long Range Wide Area Network) yn ganolog i lansiad y rhwydwaith newydd a chyffrous hwn i ffermwyr.

Canfod Problem yn Sied y Dofednod

Derwydd, Llanfihangel Glyn Myfyr

Cymerodd Llyr Jones, Fferm Derwydd, Sir Ddinbych, ran yn y Prosiect Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart i edrych ar sut allai technoleg sensor LoRaWAN wella rheolaeth dŵr a lles dofednod ar ei fferm uwchdirol 500 hectar. Gosododd y fferm sensoriaid lefel dŵr ar ei brif danciau dŵr er mwyn monitro'r cyflenwad o'i ddyfrdwll a rhoi rhybuddion cynnar am broblemau posib, gan helpu i sicrhau cyflenwad dŵr parhaus tra'n lleihau'r risg o gael dibyniaeth gostus ar ddŵr o'r prif gyflenwad. Hefyd, gosodwyd sensorau dwysedd golau yn siediau'r dofednod i fonitro'r amodau a rhybuddio staff am unrhyw amodau is na'r disgwyl, gan gefnogi lles yr adar a galluogi'r ffermwyr i ymateb yn gyflym i unrhyw broblemau y tu allan i oriau gwaith arferol. Yn ogystal, defnyddiwyd sensorau tymheredd a lleithder i fonitro cyfleusterau storio wyau'r fferm. Roedd y treial yn dangos sut all technoleg IoT wella effeithiolrwydd fferm, darparu mewnwelediad gweithredol amser go iawn, gwella lles anifeiliaid, a chefnogi gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, ac fe benderfynodd Fferm Derwydd gario ymlaen i ddefnyddio'r sensorau ar ôl i'r prosiect peilot ddod i ben.



Monitro Clyfar - Ffensys Trydan

The Cloy, Wrecsam

Cymerodd Andrew Gresty, The Cloy Farm, ger Wrecsam, ran ym Mhrosiect Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart i edrych ar sut allai technoleg ddigidol helpu i leihau'r gofynion am lafur a gwella rheolaeth y fferm, ar ôl iddo ddioddef anaf i'w asgwrn cefn a arweiniodd ato'n trosglwyddo o fod yn fferm laeth i fferm cynhyrchu cig eidion. Gosododd y fferm sensorau Fencyboy wedi'u galluogi gan LoRaWAN i fonitro perfformiad y ffens drydanol o bell ar draws ei dir pori, gan roi rhybuddion amser real pe bai'r foltedd yn gostwng neu'r pŵer yn diffodd. Mae hyn yn galluogi diffygion i gael eu canfod yn gyflym, heb i'r ffermwr orfod mynd ati i archwilio'r ffens ei hun, ac mae'n helpu i leihau llwyth gwaith, gwella rheolaeth stoc a lleihau'r risg y bydd gwartheg yn dianc. Mae'r dechnoleg eisoes wedi helpu i dynnu sylw at ardaloedd lle mae angen gwella'r isadeiledd ac mae disgwyl iddi gryfhau bioddiogelwch y fferm drwy gynnal ffensys terfyn diogel, a chefnogi rheolaeth effeithlon y fenter cig eidion sy'n tyfu ganddo.



Bu i ffermwyr elwa o gael hyfforddiant a chefnogaeth ar sut i ddefnyddio dashfyrddau data i wella cynhyrchedd busnes. Daeth y gwaith i ben gyda digwyddiad trosglwyddo gwybodaeth agri-tech, dan arweiniad ein partner cyflawni, Mentera, ar fferm ger Cerrigydrudion, i rannu'r prif ganfyddiadau, mewnwelediadau a gwersi o'r treialon.

Dichonoldeb Ynni Glân


Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Ar y cyd gyda'r darparwr Greener Edge cafodd darpariaeth o gefnogaeth uniongyrchol i sefydliadau gynnal astudiaethau dichonoldeb a datblygu eu cynigion prosiect ynni a datgarboneiddio ei dyfarnu i 7 sefydliad - Cyngor Tref Bae Colwyn, Pafiliwn Llangollen, Nant Gwrtheyrn, Cwmni Budd Cymunedol Park in the Post, Cymdeithas Amaethyddol Môn, Canolfan Gymdeithasol Hafod, a Theatr y Stiwt.

Pafiliwn Llangollen

Mae'r pafiliwn yn lleoliad diwylliannol o bwys cenedlaethol ac mae'n cynllunio trawsnewidiad carbon isel i warchod ei ddyfodol drwy leihau costau gweithredu a chefnogi'r gymuned leol. Gyda thechnolegau yn cynnwys PV solar, storio batris, pympiau gwres a gwefru EV, rhagdybir y bydd yr arbedion yn cynnwys:

- gostyngiad carbon o 46,68tCO2e
- oddeutu £269,000 dros gyfnod o 10 mlynedd



"Rydym yn hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth gan Gyngor Sir Ddinbych ac Uchelgais Gogledd Cymru. Gan mai tîm bychan a gwirfoddolwyr ydym ni, doedd gennym ni mo'r arbenigedd technegol sydd ei angen ar gyfer gwneud asesiad cynaliadwyedd llawn, felly roedd yn hanfodol ein bod yn penodi ymgynghorwyr da. Mae Greener Edge wedi bod yn wych i weithio gyda nhw, o'rymweliadau safle i'r gwaith sgopio manwl, maen nhw wedi rhoi cynllun clir i ni sy'n dangos y ffordd ymlaen."

John Gambles, Cadeirydd,
Eisteddfod Genedlaethol Llangollen

Cyngor Tref Bae Colwyn

Neuadd y Dref Bae Colwyn, hwb cymunedol rhestredig Gradd II a gwblhawyd yn 1907. Canfu'r astudiaeth dichonolrwydd y gallai ffenestri eilaidd treftadaeth-gyfeillgar, PV solar a storio batris, pympiau gwres ffynhonnell aer ac uwchraddio'r goleuadau, wella pa mor gyfforddus ac effeithlon yw'r adeilad, tra'n gostwng CO_2 o 32.80 tCO_2e y flwyddyn, gan dorri'r defnydd ynni o oleuadau 66%, cyflenwi 66% o'r galw blynyddol am drydan gyda solar a batri, ac arbed oddeutu £75,000 dros 10 mlynedd.



"Fe wnaeth y Cyngor tref ddatgan Argyfwng Hinsawdd a Natur rai blynyddoedd yn ôl. Roeddem yn ymwybodol iawn o'n allyriadau uniongyrchol a'r ffaith ein bod yn defnyddio adeilad rhestredig Gradd II. Er ei fod yn adeilad hyfryd, mae'n peri heriau i ni o ran ynni yn benodol. Buom yn llwyddiannus gyda'n cais am gefnogaeth i gynnal Astudiaethau Dichonoldeb Ynni Glân ac fe weithiom gyda Greener Edge i ddod i grwydro'r adeilad efo ni, cael golwg iawn arno, a deall ein defnydd presennol ni a'r bobl eraill sy'n defnyddio'r adeilad, ac mae oddeutu chwech ar hyn o bryd, ac mae nifer y staff sydd yn yr adeilad ar wahanol adegau o'r dydd yn amrywio."

Tina Earley, Clerc Tref, Cyngor Tref Bae Colwyn

Elusen y Flwyddyn



Elusen y Flwyddyn

Bob blwyddyn, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn dewis elusen am y flwyddyn. Elusen y Tîm ar gyfer y llynedd (Medi 2024-2025) oedd Canolfan Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru. Mae RASASC yn darparu gwybodaeth hanfodol, cymorth arbenigol, a therapi i unrhyw un 3 oed a throsodd sydd wedi profi cam-drin rhywiol neu drais - boed yn ddiweddar neu'n hanesyddol. Mae eu gwasanaethau hefyd yn ymestyn i bartneriaid ac aelodau o'r teulu yr effeithir arnynt gan brofiadau o'r fath, gan gynnig cymorth tosturiol, proffesiynol i helpu pobl i wella.

Mae'r tîm wedi cynnal cymysgedd wych o weithgareddau codi arian hwyliog ar gyfer yr elusen, o gynnal cyfres o stondinau gwerthu cacennau, i gynnal digwyddiad Spin Fest poblogaidd tu hwnt a ddaeth â chydweithwyr a'r gymuned at ei gilydd. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran a chefnogi'r digwyddiadau gwych hyn a'r elusen! Hefyd, bu'r tîm yn creu pecynnau gofal i gleientiaid RASASC oedd werth £1,159.

Diolch yn fawr iawn i Ganolfan Cefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC Gogledd Cymru am fod yn Elusen y Flwyddyn - rydym yn hynod falch o gefnogi sefydliad sydd mor hanfodol bwysig.

Fe wnaethon ni godi

£3,271

ar gyfer yr elusen

Rydym yn falch o gyhoeddi mai ein Elusen y Flwyddyn (Medi 2025-2026) yw Hosbis Dewi Sant.

Dyma elusen sy'n darparu gofal lliniarol arbenigol o ansawdd uchel i gleifion gydag afiechydon sy'n byrhau oes. Maent yn gweithio 24/7 ac yn cynnig gofal i gleifion mewnol, gwasanaethau hosbis-yn-y-cartref, therapi dydd, a chefnogaeth profedigaeth i gleifion a'u teuluoedd.

Rydym yn bwriadu cefnogi tîm ymroddedig y sefydliad drwy ystod o weithgareddau codi arian a chodi ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn.

Cadwch lygad am fwy o'n digwyddiadau yn eich ardal chi wrth i ni barhau i gefnogi'r achos hanfodol hwn trwy gydol y flwyddyn!

Gogledd Cymru rasasc North Wales









Hosbis Dewi Sant St David's Hospice

Edrych ymlaen: Y deuddeg mis nesaf

Eleni byddwn yn adeiladu ar y sylfeini cadarn sefydlwyd yn 2025/26. O dan arweinyddiaeth ddemocratiaeth y chwe Arweinydd cyngor cyfansoddol, gan weithio gyda'i gilydd drwy Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, byddwn yn cyflymu buddsoddiad, cryfhau hyder wrth gyflawni a chreu hyd yn oed mwy o gyfleoedd ar gyfer cymunedau, busnesau a phartneriaid ar draws Gogledd Cymru.

Wrth i'n rhaglenni ennill momentwm, byddwn yn parhau i gryfhau'r sefydliad drwy ymgorffori systemau cadarn, gwella gallu a symud ymlaen a'n taith drawsnewid. Bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau bod gennym y capasiti, yr ystwythder a'r tryloywder sydd ei angen i reoli portffolio cynyddol gymhleth a uchafu'r effaith.

Bydd trafnidiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, gyda buddsoddiad cyfalaf yn cefnogi ymyriadau cynaliadwy sy'n gwella mynediad at swyddi, addysg, gwasanaethau a chyfleoedd hamdden. Bydd y buddsoddiadau hyn yn helpu i greu cymunedau wedi'u cysylltu'n well, cefnogi datgarboneiddio a chryfhau cyfranogiad economaidd hirdymor.

Bydd gwaith hefyd yn parhau ar y Cynllun Datblygu Strategol, gan gefnogi dull mwy cyd-gysylltiedig o ddefnyddio tir, tai, isadeiledd, trafnidiaeth a datblygu economaidd. Mae hyn yn gam pwysig tuag at ddyfodol cynaliadwy a ffyniannus i ogledd Cymru, gan gydbwyso blaenoriaethau lleol â chyfleoedd rhanbarthol.

Ar draws Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, bydd prosiectau yn parhau i symud o gynllunio i gyflawni. Mae hyn yn cynnwys cyllid grantiau busnes, ymyraethau sgiliau ac buddsoddi mewn isadeiledd i gyflymu'r gwaith o ddatblygu safleoedd strategol allweddol.

Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynyddu momentwm, gyda mwy o brosiectau'n symud i gyflawni a canolbwyntio cynyddol ar fuddsoddiad, creu swyddi a gwerth economaidd hirdymor. Disgwylir cynnydd ar draws prosiectau blaenllaw gan gynnwys cychwyn y gwaith adeiladu ar brosiectau yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i Parc Bryn Cegin, Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn ac Porthladd Mostyn.

Bydd cysylltedd digidol yn parhau yn ganolog i dwf cynhwysol, gyda cynlluniau grant newydd a gwaith parhaus Fforwm Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru i helpu fynd i'r afael a heriau cysylltedd a chefnogi cymunedau, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus.

Edrychwn ymlaen hefyd at weld mwy o fusnesau a sefydliadau gwirfoddol yn elwa o'r Gronfa Ynni Glan fel rhan o'r Rhaglen Ynni Carbon Isel ehangach.

Ynghyd a hyn, bydd paratoadau yn cychwyn ar gyfer dull rhanbarthol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Dwf Lleol fydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ei chyflawni o fis Ebrill 2027.

Gyda'i gilydd, mae'r blaenoriaethau hyn yn arwydd o gyfnod newydd i Ogledd Cymru, wedi'i ddiffinio gan gyflawni, uchelgais a phartneriaeth. Wedi arwain gan arweinyddiaeth gyfunol y chwe Arweinydd cyngor cyfansoddol ac wedi'u lywio gan anghenion a dyheadau ein cymunedau, byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid i greu Gogledd Cymru fwy llewyrchus, gwydn, a gysylltiedig.



Alwen Williams

Prif Weithredwr
Uchelgais Gogledd Cymru

Ein Partneriaid

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council

Conwy

Cyngor sir ddinbych / denbighshire County Council

Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council

Cyngor Gwynedd

wrexham / wrecsam

Parc Cenedlaethol Eryri / Eryri National Park

Prifysgol Bangor University

Coleg Cambria

Grŵp Llandrillo Menai

Prifysgol Wrecsam / Wrexham University

£240m o Gyllid y Cynllun Twf

£160m o Gyllid Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam gan

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

UK Government / Llywodraeth y DU

Office of the Secretary of State for Wales / Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru